CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
6 Rhagfyr 2017
AM 7.00 O'R GLOCH YN YR IORWERTH BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, I Rowlands, G Parry, S Parry, E Huws, C Hughes, K Humphreys, Cyng D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R G Parry	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 11.10.17. Cyng E Huws yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae** - Mae'r cais am grant gan y Cyngor Sir wedi bod yn llwyddianus a mae'r Clerc wedi terfnu i'r swings cael eu gosod 18.12.17.
4.2	**Lon Salem** - Cytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf am bod Cyng R G Parry yn absennol.
4.3	**Sedd wag** - Mae'r Clerc wedi derbyn 2 cais am un sedd wâg. Cytunwyd i cynnig cyfweliad i'r ymgeisydd ym mis Ionawr
4.4	**Lôn y Fynwent** - Bydd y Clerc yn trefnu cael prisiau gan R G Hire a R P O Williams am llenwi'r tyllau. Hefyd, bydd y Clerc yn atgoffa "Community Pay Back" am dan twtio ochr lôn y fynwent. Cynigodd Cyng K Humphreys cael bin du i'r fynwent.
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Dywedodd y Cadeirydd bod yr Iorwerth yn hub i'r pentref a bod angen cefnogi y hub a bosib cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn y Hub. Cytunwyd i ail drafod mis nesaf. Dywedodd hefyd bod yr Heddlu wedi methu troi fynu ar Sul y Cofio - mae'r Clerc wedi anfon cwyn. Mae y Cadeirydd wedi trefnu gyda'r Eglwys i adael y golau ymlaen unwaith eto dros cyfnod y Nadolig a wedi cynnig rhodd o £40.00
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Pwyllgor Safonnau
6.1	Darllenwyd llythyr gan y Pwyllgor Safonnau yn dweud bod y cadeirydd Cyng I Roberts a Cyng Keith Roberts, Cyngor Bae Trearddur wedi bod yn llwyddianus i llenwi y seddau gwag ar y pwyllgor.
	Llofnod…….Cadeirydd 11.01.18

7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Mae'r Clerc wedi derbyn pris am torri gwair gan Mr Rhys Williams. Cytunwyd i hysbysebu y tender ar gwefan y Cyngor ac ar tudalen Facebook
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Twll yn y lôn wrth ymyl yr hen swyddfa bost. Cynigodd Cyng D Rees dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Rhent blynyddol y maes chwarae £16.48 (rhent ychwanegol)
9.2	Costau y Cadeirydd £227.00
9.3	Rhoddion Nadolig £50.00 yr un: Ysgol Feithrin, Plas Crigyll, Canolfan Dydd Plas Crigyll, Ysgol Gynradd, Bryngwran Cymunedol, Bryngwran Bulls, Eglwys y Plwyf.
9.4	Rhys Williams torri gwair £1529.00
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.	Problemau parcio
	Llofnod…….Cadeirydd 11.01.18